# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 50
15/03/21

## Marchogaeth i Jerwsalem

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref
tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Jennifer Roberts - Eglwys Bresbyteraidd Cymru
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Kathryn Williams, Rachel Hughes,
Chris Dean, Elin Bryn Williams, Glyn Watson, Owain Edwards, Delyth Dempsey a Gwyn Rhydderch

An English version is also available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org



# Stori


## Fersiwn Beibl.net



Dyma nhw'n cyrraedd Bethffage wrth Fynydd yr Olewydd yn ymyl Jerwsalem, a dyma Iesu'n dweud wrth ddau ddisgybl, "Ewch i'r pentref acw sydd o'ch blaen chi, ac wrth fynd i mewn iddo dewch o hyd i asen wedi'i rhwymo a'i hebol gyda hi. Dewch â nhw yma i mi, ac os bydd rhywun yn ceisio'ch rhwystro, dwedwch, 'Mae'r meistr eu hangen nhw; bydd yn eu hanfon yn ôl wedyn.'"

Digwyddodd hyn er mwyn i beth ddwedodd Duw drwy ei broffwyd ddod yn wir: "Dwed wrth bobl Seion, 'Edrych! Mae dy frenin yn dod! Mae'n addfwyn ac yn marchogaeth ar asen; ie, ar ebol asyn.'"

I ffwrdd â'r disgyblion, a gwneud yn union beth ddwedodd Iesu wrthyn nhw. Pan ddaethon nhw â'r asen a'i hebol yn ôl, dyma nhw'n taflu'u cotiau drostyn nhw, a dyma Iesu'n eistedd arnyn nhw. Roedd tyrfa fawr yn gosod eu cotiau fel carped ar y ffordd o'i flaen, neu dorri dail o'r coed a'u lledu ar y ffordd. Roedd y dyrfa y tu blaen a'r tu ôl iddo yn gweiddi,



"Hosanna! Clod i Fab Dafydd! Mae'r un sy'n dod i gynrychioli'r Arglwydd wedi'i fendithio'n fawr! Clod i Dduw yn y nefoedd uchaf!"

Roedd y ddinas gyfan mewn cynnwrf pan aeth Iesu i mewn i Jerwsalem. "Pwy ydy hwn?" meddai rhai. Ac roedd y dyrfa o'i gwmpas yn ateb, "Iesu, y proffwyd o Nasareth yn Galilea."

*Mathew 21:1-11 Beibl.net*

## Fersiwn syml

Roedd Iesu a'r disgyblion ar eu ffordd i Jerwsalem. Dywedodd Iesu wrth ddau o'i ddisgyblion, "Ewch i'r pentref acw. Mi ddowch chi o hyd i asyn bach wedi ei rwymo. Dywedwch wrth ei berchennog fy mod i eisiau ei fenthyg." Daeth y disgyblion yn ôl gyda'r asyn. Eisteddodd Iesu ar gefn yr asyn a mynd yn ei flaen am Jerwsalem. Wrth iddynt deithio yn eu blaenau daeth llawer o bobl i weld Iesu. Roedden nhw'n rhoi eu cotiau a dail ar y llawr fel carped o flaen Iesu ac roedden nhw'n gweiddi, "Hosanna! Dyma'r Brenin yn dod, y Brenin mae Duw wedi ei addo i ni. Clod i Dduw". Roedd pawb yn llawn cyffro wrth weld Iesu'n dod i mewn i Jerwsalem. Gofynnodd rhai, "Pwy ydi hwn?" Atebodd rhai oedd yn y dyrfa o'i cwmpas "Iesu ydy o."



# Cwestiynau i'w trafod

Ar ôl darllen y stori gyda'ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:



1. Pan fyddwn ni'n cael croesawu pobl yn ôl i'n tai, pwy wyt ti'n edrych ymlaen at eu croesawu i tŷ chi?
2. Beth wyt ti am ei wneud i ddangos croeso iddyn nhw?
3. Pan oedd Iesu'n dod i mewn i Jerwsalem, sut oedd y bobl yn dangos eu croeso?
4. Roedd y bobl yn croesawu Iesu fel brenin. Sut fedri di adael i Iesu fod yn frenin arnat ti?

# Gweddi fer

O Dduw, diolch i Ti am anfon Iesu i'r byd yn frenin heddwch.
Diolch fod Iesu wedi dod i fod yn frenin sy'n ffrind i mi.
Plîs helpa fi i groesawu Iesu fel brenin ar fy mywyd.
Amen.



# Stori i'w lliwio


# Iesu'n Marchogaeth ar Asyn

www.lambsongs.co.nz    Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams)    Lluniau: Richard Gunther



Mathew 21:1-11


**Ar yr adeg hon roedd pobl Israel yn disgwyl am frenin i'w hachub. Pan welsant Iesu'n marchogaeth i mewn i Jerwsalem roedden nhw'n meddwl fod y Brenin wedi dod!**



**Roedd Iesu'n mynd i'r Deml yn Jerwsalem. Anfonodd ddau ddisgybl i nôl asyn bychan oedd wedi ei glymu, yn ymyl ei fam, yn y dref nesaf.**



**Daethant o hyd i'r ebol asyn ble'r oedd Iesu wedi dweud y byddent yn dod o hyd iddo. Dywedon nhw wrth y dyn oedd biau'r ebol fod Iesu ei angen ar gyfer ei farchogaeth i Jerwsalem a dyna nhw'n cael mynd â'r asyn yn ôl gyda nhw.**




**Fe roeson nhw eu cotiau ar gefn yr asyn er mwyn i Iesu eistedd yn gyfforddus arnynt. Eisteddodd Iesu ar gefn yr ebol asyn. Roedd am fynd i'r Deml yn Jerwsalem.**



**Roedd llawer iawn o bobl ar ochr y ffordd. Roedden nhw'n hapus iawn i weld Iesu. Rhoddodd y bobl eu cotiau ar y llawr fel carped i'r asyn gerdded arnynt.**



**Fe wnaeth rhai pobl dorri dail oddi ar y coed palmwydd oedd yn tyfu ger y ffordd. Wnaethon nhw chwifio'r dail palmwydd wrth i Iesu fynd heibio.**



**Roedd pawb yn llawen i weld Iesu. "Hosanna i'r Brenin!" bloeddiasant wrth i Iesu fynd i fyny'r ffordd tuag at ddinas Jerwsalem.**



**Wedi iddynt gyrraedd Jerwsalem disgynnodd Iesu oddi ar gefn yr asyn ac aeth i'r Deml fawr i weddïo ar Dduw.**


# Dolenni




Fideo o'r stori
https://youtu.be/8bjRRNSAYdU




Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/ez4fnZtUI2A




Cartŵn o'r stori (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=z-39h0xYqdE&t=2s



# Gweddi Greadigol

## Deilen palmwydden gobeithion a breuddwydion


Crea ddeilen palmwydden ac ysgrifenna "Iesu yw'r Brenin" i lawr ei chanol ac yna ysgrifenna eiriau sy'n canmol Duw. Ysgrifenna dy obeithion a breuddwydion hefyd. Wrth i ti wneud y ddeilen palmwydden, gofynna i Iesu ddod yn Frenin ar dy fywyd.




## Croeso!

Cafodd Iesu groeso arbennig wrth iddo farchogaeth i mewn i Jerwsalem.

Meddylia am y bobl rwyt ti'n edrych ymlaen at eu croesawu yn ôl i dy dŷ.
Tynna lun o dy dŷ â'r drws ar agor a llun pobl yn y ffenestri.
Ysgrifenna enwau'r bobl ar y llwybr i'r tŷ
Diolcha i Dduw am bob un ohonyn nhw.




# Posau

Fedri di ddod o hyd i saith gwahaniaeth rhwng y lluniau?





Fedri di helpu disgyblion Iesu i gyrraedd yr asyn?







Mae geiriau'r adnod i’w dysgu wedi eu cuddio yn y llun.
Fedri di ddod o hyd iddyn nhw a'u hysgrifennu isod?




Ysgrifenna’r adnod yma:

# Crefft

## Marchogaeth ar Asyn





**Byddi angen:**

Potel bop 2ltr, llinyn, gwlân llwyd, tâp inswleiddio, glud PVA, cansen hir o fambŵ neu ffon o'r ardd, pensel, cerdyn gwyn, pinnau ffelt, siswrn.






**1**. Golcha'r botel a thynna'r label a'r caead.




**2**. Torra ddarn hir o linyn a chlyma fo'n sownd yng ngwddf y botel .





**3**. Plyga'r botel ac yna lapia'r llinyn o gwmpas corff y botel. Er mwyn cadw siâp plygedig y botel clyma'r llinyn yn dynn.



**4**. Gwna lun o ddau lygad, dwy glust,dwy ffroen a cheg a'u lliwio.



**5**.Torra nhw allan



**6**. Defnyddia'r glud PVA i lynu'r clustiau, y llygaid a'r ffroenau i ffrynt y botel. Glyna'r geg yn sownd i waelod y botel.



**7**. Lapia'r gwlân llwyd o gwmpas dy fraich (o dy law i dy benelin ) 15 o weithiau.



**8**. Yn ofalus tynna'r gwlân oddi ar dy fraich.





**9**. Torra'r gwlân yn union fel y gweli di yn y llun uchod.



**10**. Cymer ddarn o wlân a'i glymu hanner ffordd i lawr y swp o wlân.



**11**. Plyga'r gwlân yn ei hanner.



**12**. Clyma'r gwlân yn union fel y gweli di yn y llun uchod



**13**. Clyma'r gwlân yng ngwddf y botel.





**14**. Gwthia'r gansen bambŵ i mewn i wddf y botel a'i dal yn ei lle â thâp inswleiddio.



Nawr mae dy asyn yn barod i'w farchogaeth!



# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| P | R | O | FF | W | Y | D | G | DD | I | R | M |
| E | B | O | L | O | L | E | W | Y | DD | T | A |
| N | L | A | F | R | Y | T | E | W | E | S | R |
| T | B | R | E | N | I | N | I | L | O | I | CH |
| R | Y | D | M | Y | N | Y | DD | G | F | E | O |
| E | G | A | FF | TH | E | B | I | R | E | M | G |
| F | S | I | E | I | H | O | S | A | N | N | A |
| S | I | L | S | A | N | I | D | O | L | C | E |
| U | D | T | A | F | L | U | S | E | I | NG | TH |
| D | E | P | R | A | C | O | T | I | A | U | E |
| DD | R | O | FF | A | S | Y | N | D | E | O | C |
| N | D | I | M | E | L | A | S | W | R | E | J |

ARGLWYDD
ASYN
BETHFFAGE
BRENIN
CARPED
CLOD
COED
COTIAU
DAIL
DINAS
DISGYBL
EBOL
EISTEDD
FFORDD
GWEIDDI
HOSANNA
IESU
JERWSALEM
MARCHOGAETH
MEISTR
MYNYDD
NEFOEDD
OLEWYDD
PENTREF
PROFFWYD
TAFLU
TYRFA

# Sialensau

Beth am greu poster neu addurn i'w roi yn dy ffenestr yn dangos croeso i Iesu? Buaset yn gallu rhoi'r geiriau "Mae croeso i Iesu yma!" ar y poster.




Maedail palmwydd wedi eu cuddio trwy'r pecyn hwn.
Sawl un fedri di ddod o hyd iddyn nhw?

Defnyddia Lego i ail greu'r stori.



## Paid â newid dy feddwl!

Fe wnaeth y bobl ganmol Iesu a dathlu pan ddaeth i mewn i ddinas Jerwsalem ar gefn asyn. Roedden nhw'n meddwl mai Iesu fyddai eu brenin ond ychydig o ddyddiau'n ddiweddarach wnaethon nhw newid eu meddwl. Wyt ti'n un sy'n tueddu i newid dy feddwl wedi i ti benderfynu gwneud rhywbeth? Yr wythnos hon gwna restr o bethau y gelli di eu gwneud i helpu eraill. Dyweda wrthyn nhw beth wyt ti am ei wneud a gwna hynny'n syth. Cofia, paid â newid dy feddwl!

# Gemau

## Ras y dail palmwydd

**Byddi angen:** Papur neu gerdyn fel bocs grawnfwyd, pensil, siswrn.

**Beth i'w wneud:**
- Torra siâp dwy ddeilen balmwydd i bob chwaraewr allan o'r papur neu'r cerdyn.
- Cofia wneud y dail yn ddigon mawr i sefyll arnyn nhw.



**Sut i chwarae:**
- Mae pob chwaraewr yn symud o un pen i'r ystafell, neu'r ardd gan ddefnyddio'r ddwy ddeilen bapur.
- Mae'n rhoi un ddeilen i lawr, sefyll arni, ac yna'n rhoi'r ddeilen arall o'i blaen a sefyll ar honno.
- Mae'n dal i fynd nes y bydd yn cyrraedd y pen arall i'r ystafell.
- Y chwaraewr cyntaf i gyrraedd y pen arall sy'n ennill.
- Neu'r chwaraewr sy'n cyrraedd yn yr amser cyflymaf sy'n ennill.

## Helfa drysor

**Byddi angen:**
- Asyn (Gwna lun o un os nad oes gen ti degan)
- Cliwiau ar gyfer darganfod ble mae'r asyn wedi ei guddio

**Sut i chwarae:**
- Mae Person A yn cuddio'r asyn ac yn ysgrifennu cliwiau ar ddarnau o gerdyn er mwyn i Berson B fynd ati i ddarganfod ble mae'r asyn wedi cael ei guddio.
- Mae Person A yn rhoi'r cliwiau i Berson B er mwyn iddo fynd i chwilio am yr asyn.
- Wedi i Berson B ddod o hyd i'r asyn bydd yn ei guddio ac yn ysgrifennu cliwiau newydd ar ddarnau o gerdyn er mwyn i Berson A fynd i chwilio am yr asyn.
- Gall mwy na dau berson chwarae e.e.Person C, Ch, D a.y.y.b.





# Canu

Hosanna yn y goruchaf! Hosanna! Mae'r Achubwr yn dod, Hosanna!
Hosanna yn y goruchaf! Hosanna! Mae ein Brenin yn dod, Hosanna!

Bendigedig yw'r Un sy'n dod yn enw'r Arglwydd Dduw.
Bendigedig yw'r Un sy'n dod yn enw'r Arglwydd Dduw.

Iesu (Iesu), ein Brenin ni (ein Brenin ni),
Croesawn Di (croesawn Di), yn ein plith (yn ein plith).

*Hawlfraint 2021 Andy Hughes*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/ez4fnZtUI2A

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes ahughes@saintygymuned.org

